

VALE OF CLWYD

# MATTERS

FROM DR JAMES DAVIES MP

# Community Update

my plan PROGRESS REPORT



Matt Warman MP, Parliamentary Under-Secretary of State for Digital Infrastructure visited Commscope in Bodelwyddan to witness their expansion in the manufacture of fibre broadband cabling for network providers such as Openreach.

## As the area bounces back from the pandemic, many opportunities lie ahead.

In Denbigh, I am working closely with the community over a number of issues, including the former North Wales Hospital, town centre parking, at-risk historical buildings and the potential to reinvigorate plans for a cycle path from St Asaph and the coast, via Denbigh, to Ruthin.

Work in St Asaph has been focussed around the need to implement further flood defence and preventative works, following on from the storms of early last year. I have also assisted residents in securing reduced noise from the A55 flyover – although there is more work to do in relation to adjacent stretches.

Likewise, I am working on potential options to reduce the disturbance caused to residents by noise emanating from the Rhuddlan bypass.

Rhuddlan Castle, St Asaph Cathedral and Denbigh Castle will soon, and very belatedly, benefit from brown signage on the A55, directing visitors to these much-loved but frequently overlooked historical landmarks.

I am very aware of the ongoing concern at the loss of Llanerch Bridge, between Trefnant and Tremeirchion, and am pressing the county council for action. I have also been liaising closely with stakeholders in Llandyrnog regarding the future of the creamery site, have supported residents in opposing controversial travellers' sites, and raised rural broadband inadequacies at Prime Minister's Questions recently.


## Contact Dr James Davies MP

james.davies.mp@parliament.uk

198 High Street, Prestatyn, Denbighshire, LL19 9BP

01745 888920

jamesdavies.org.uk/youtube

www.jamesdavies.org.uk

jamesdaviesofficial

@jamesdavies

jamesdaviesvoc


**I hold regular advice surgeries offering help and support to local people. To arrange an appointment, please email or call me.**


Promoted by Judith Hickey, on behalf of Dr James Davies MP, both at VoCCA, Hanover House, The Roe, St. Asaph, LL17 0LT. Printed by Paragon CC, 19 Brunswick Street, Liverpool, L2 0PJ.

This newspaper has not been funded by the tax payer.


**Delivering My Plan for Vale of Clwyd**

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

# WORKING TOGETHER TO DELIVER MY PLAN FOR VALE OF CLWYD

## The Value of our Environment



my plan

**The protection of our environment remains high on the national agenda, and I am keen to reflect that locally. Flooding in the area in recent years has been devastating for a number of residents and I continue to work to ensure that we are better protected in future.**

I am also doing what I can to prevent new housing developments being built on land which is susceptible to flooding.

I recently hosted a Vale of Clwyd Climate Summit, during which three expert panels engaged constructively with residents to consider how we can all behave in an environmentally-friendly way. Green energy opportunities for our region were also discussed – from tidal energy to hydrogen production, and carbon capture and storage. At Parliament, I am engaged with proposals to tackle air pollution and litter and to introduce a new deposit return scheme.

Animal welfare issues are receiving increasing attention and I have been pleased to support legislation to ensure animal abusers face tougher sentences.



Jones Bros demonstrate their plans for the North Wales Hospital site in Denbigh, and their excellent apprenticeship programme.

## What 'Levelling Up' means to the Vale

my plan

**The Levelling Up agenda seeks to ensure that all parts of the UK have the resources they need to thrive. The UK Government is making tens of millions of pounds available within Denbighshire alone.**

The 'Levelling Up Fund' is intended to deliver high-value regeneration projects and I am already in advanced conversations with local stakeholders to establish priorities.

I have been pleased to support dozens of organisations in applying for support through the 'UK Community Renewal Fund', which is evolving to replace the former EU structural funds. The 'UK Community Ownership Fund' has also been launched. This allows local organisations to purchase at-risk facilities, such as sports grounds, pubs and corner shops.

*The UK Government is making tens of millions of pounds available within Denbighshire alone.*

At the Budget, Chancellor Rishi Sunak accelerated funding for the North Wales Growth Deal, bringing the prospect of new jobs and opportunities to the region. It is hoped that projects to be supported can include the redevelopment of the former North Wales Hospital in Denbigh, the expansion of high-tech engineering industries at St Asaph Business Park and town centre redevelopment at Rhyl.

I am keen to assist local companies to make the most of new trade deals emerging since Brexit and recently held the first of a number of Export Programme events.



## Healthcare a priority beyond Covid-19

my plan

**At the election, I pledged to work to bring NHS services in North Wales up to standard.** At that point, none of us knew that existing challenges would be compounded by the largest health emergency in living memory. Despite the immense pressures that health and care staff have been under, they have worked tirelessly to protect us all. I have been proud to work with colleagues to deliver vaccines into arms locally, and thanks to our world-leading programme, we can now look beyond the pandemic to refocus on the challenges facing the local health board.

As a GP and member of the Commons Health & Social Care Select Committee, I have first-hand experience of how the healthcare system in North Wales is letting too many people down. My inbox is full of concerns from those who have suffered as a result. I am working with key individuals to see the introduction of UK-wide comparable data on NHS performance and outcomes, and new mechanisms to ensure a minimum standard of care for all British citizens. I am also pushing for equal access and choice to hospital services across the country, regardless of where in the UK we live. I want to use my position to level up the NHS, to ensure that all who need it can access the best care as soon as possible.



I have been proud to join colleagues vaccinating local people in the fight against Covid-19.

*I want to use my position to ensure all constituents can access the best physical and mental healthcare as soon as possible.*

## Digital and Transport Infrastructure to help North Wales build back better

**As so much has moved online over the past 18 months, many have been frustrated by poor broadband connections.** I have been engaging with the UK Government, the local council and Openreach to prioritise North Wales in their plans for both broadband connectivity and mobile phone coverage.

Since the General Election, North Wales is now represented by several Conservative MPs, and we work as a powerful team fighting for the interests of the region. We believe that improving our rail and road infrastructure is vital for the area's future. As chair of our regional all-party group in Parliament, I am pushing very hard for more ambitious proposals, delivered sooner. I am very pleased that the A55 and regional rail links feature in the UK Government's 'Union Connectivity Review', which sets out priorities for action.



my plan

## More police officers to tackle crime



**Since the General Election, North Wales Police have recruited 147 new police officers as part of a national effort to boost numbers by 20,000.**

North Wales Police and Denbighshire County Council were awarded £517,000 by the Home Office to roll out the 'Safer Streets' programme in west Rhyl. This has seen the delivery of hundreds of 'crime prevention packs' to residents and the installation of CCTV cameras. There is also a new community garden, a newly established Community Champions Group, and there are new digital locks on existing alley gates. These activities are helping create a safer environment and combat criminality such as shoplifting, burglary, vehicle crime, and robbery. They also assist tackling County Lines drugs supply. Recently, all five identified county lines drugs telephones supplying in Rhyl were shut down and all 16 individuals concerned were arrested.

I hold regular advice surgeries offering help and support to local people. To arrange an appointment, please email or call me.

# A personal message...

## DR JAMES DAVIES

MEMBER OF PARLIAMENT FOR VALE OF CLWYD

**It is an honour and privilege to represent the Vale of Clwyd at Parliament.** The period since the election has been incredibly busy – I have personally processed 80,000 emails, helped 3,750 constituents with individual cases and responded to 5,700 policy enquiries. I have made 83 spoken contributions in the House. At the height of the pandemic, I and my team were working daily into the early hours to provide assistance, and it has been rewarding to help so many through such turbulent months.

I would like to express my sincere thanks to each and every key worker; whether working in the NHS and social care, for the emergency services, in our schools, in retail, transport, within the local authority and so on – you have all put yourself on the front line to support our communities at a time of need.

I would also like to thank all who played their part in other ways in our fight against Covid-19. Whether you volunteered to help your neighbours or those shielding; supported the vaccination programme; provided comfort and support to those around you; or simply followed the restrictions to help save lives – it is appreciated.

The Government has worked to protect individuals, families, businesses and communities, via the furlough scheme, business grants, rapid and more generous welfare support, a world-beating testing and genomic sequencing capability, a successful vaccination programme, and now efforts to help get people back into work.

I look forward to helping move the area forward as we emerge from this challenging period.

Best wishes

*James*







"I was pleased to welcome pupils from Ysgol Esgob Morgan to the Parliamentary Education Centre in March 2020. I look forward to other schools visiting as soon as restrictions allow. If you are keen to visit Parliament, please get in touch with my office and we will do what we can to accommodate.



Pupils of Ysgol Esgob Morgan visiting Parliament



"Social media is packed full of inaccurate political reporting and misinterpretations of the often quirky way in which Parliament operates. If something sounds unreasonable or ridiculous, there is probably more to the story. Please always check the source of information and if you remain baffled or concerned, feel free to contact me!

disability confident COMMITTED

Sign up to James' monthly e-newsletter at www.jamesdavies.org.uk/sign-my-e-newsletter





# Neges bersonol...

## DR JAMES DAVIES

AELOD SENEDDOL DROS DDYFFRYN CLWYD

**Mae'n anrhydedd ac yn fraint cael cynrychioli Dyffryn Clwyd yn Senedd y DU. Mae'r cyfnod ers yr etholiad wedi bod yn anhygoel o brysur – rydw i wedi prosesu 80,000 o e-byst yn bersonol**, ynghyd â helpu 3,750 o etholwyr gydag achosion unigol, ac ymateb i 5,700 o ymholiadau ar bolisi. Rydw i wedi gwneud 83 cyfraniad llafar yn y Tŷ. Yn anterth y pandemig, roeddwn innau a'm tîm yn gweithio tan oriau mân y bore bob dydd i ddarparu cymorth, ac mae helpu cymaint o bobl drwy'r misoedd cythryblus hyn wedi bod yn brofiad boddhaus.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bob un o'r gweithwyr allweddol, p'un ai ydynt yn gweithio yn y GIG a gofal cymdeithasol, i'r gwasanaethau brys, yn ein hysgolion, mewn manwerthu, trafnidiaeth, yn yr awdurdod lleol ac ati – rydych bob un wedi sefyll ar flaen y gad i gefnogi ein cymunedau pan oedd eich angen.

Hoffwn ddiolch hefyd i bob un a chwaraeodd eu rhan mewn ffyrdd eraill yn ein brwydr yn erbyn Covid-19. Boed yn gwirfoddoli i helpu eich cymdogion neu'r rhai oedd yn cysgodi; cefnogi'r rhaglen frechu; darparu cysur a chymorth i'r rhai o'ch cwmpas: neu'n cadw at y cyfyngiadau i helpu i achub bywydau – mae hyn oll yn cael ei werthfawrogi.

Mae'r Llywodraeth wedi gweithio i ddiogelu unigolion, teuluoedd, busnesau a chymunedau drwy'r cynllun ffyrlo, grantiau busnes, cymorth lles hael a chyflym, y gallu heb ei ail i gynnal profion a dilyniant genomig, rhaglen frechu lwyddiannus, ac yn awr, ei hymdrechion i helpu pobl i fynd nôl i'r gwaith.

Rwy'n awyddus i helpu'r ardal i symud ymlaen wrth i ni ddod allan o'r cyfnod heriol hwn.

*James*







"Roedd yn bleser cael croesawu disgyblion o Ysgol Esgob Morgan i Ganolfan Addysg Senedd y DU ym mis Mawrth 2020. Rwy'n edrych ymlaen at ymweliadau gan ysgolion eraill pan fydd y cyfyngiadau'n caniatáu. Os hoffech ymweld â Senedd y DU, cysylltwch â'm swyddfa a byddwn yn gwneud ein gorau i hwyluso hyn.



Disgyblion o Ysgol Esgob Morgan yn ymweld â Senedd y DU



"Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn llawn dop o straeon gwleidyddol anghywir ac yn camddehongli'r ffordd y mae Senedd y DU yn gweithredu, er mor fympwyol yw hon yn aml. Os ydy rhywbeth yn swnio'n afresymol neu'n chwerthinllyd, yn ôl pob tebyg mae mwy y tu ôl i'r stori. Gwiriwch ffynhonnell y wybodaeth bob amser ac os ydych yn dal i deimlo'n ddryslyd neu'n bryderus, mae croeso i chi gysylltu â mi!

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG

Cofrestrwch i gael e-gylchlythyr misol James yn www.jamesdavies.org.uk/sign-my-e-newsletter

# CYDWEITHIO I GYFLAWNI FY NGHYNLLUN

## Gwerth ein Hamgylchedd



fy nghynllun

**Mae diogelu ein hamgylchedd yn dal i fod yn uchel ar yr agenda cenedlaethol, ac rwy'n awyddus i adlewyrchu hynny'n lleol.** Mae'r llifogydd yn yr ardal yn y blynyddoedd diwethaf wedi effeithio'n andwyol ar nifer o'r preswylwyr ac rwy'n parhau i weithio i sicrhau ein bod yn cael ein hamddiffyn yn well yn y dyfodol. Rydw i hefyd yn gwneud fy ngorau i atal datblygiadau tai newydd ar dir sy'n dueddol i lifogydd. Yn ddiweddar, trefnais Uwchgynhadledd Hinsawdd yn Nyffryn Clwyd, lle bu tri phanel o arbenigwyr yn ymgysylltu'n adeiladol â phreswylwyr i ystyried sut gallwn bob un ymddwyn mewn ffordd ecogyfeillgar. Trafodwyd cyfleoedd ynni gwyrdd yn ein rhanbarth hefyd – o ynni'r llanw i gynhyrchu hydrogen, a chipio a storio carbon. Yn Senedd y DU, rwy'n gweithio ar gynigion i ymdrin â llygredd aer a sbwriel ac i gyflwyno cynllun dychwelyd ernes newydd. Mae materion lles anifeiliaid yn cael mwy o sylw bellach ac rwy'n falch o gefnogi deddfwriaeth i sicrhau bod y rhai hynny sy'n cam-drin anifeiliaid yn wynebu dedfrydau llymach



Jones Bros yn arddangos eu cynlluniau ar gyfer safle Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych, a'u rhaglen brentisiaeth ragorol.

## Beth mae 'Codi'r Gwastad' yn ei olygu i'r Dyffryn

fy nghynllun

**Mae'r agenda Codi'r Gwastad yn ceisio sicrhau bod pob rhan o'r DU yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ffynnu. Mae Llywodraeth y DU yn cynnig degau o filiynau o bunnoedd i Sir Ddinbych yn unig.**

Pwrpas y 'Gronfa Codi'r Gwastad' yw cyflawni prosiectau adfywio sylweddol ac rydw i wrthi'n barod yn cynnal sgyrsiau gyda rhanddeiliaid lleol i asesu'r blaenoriaethau.
Rydw i wedi medru helpu dwsinau o sefydliadau wrth iddynt ymgeisio am gymorth trwy 'Gronfa Adfywio Gymunedol y DU' a fydd yn cymryd lle cronfeydd strwythurol blaenorol yr UE. Mae 'Cronfa Perchenogaeth Gymunedol y DU' wedi cael ei lansio hefyd. Mae hon yn caniatáu i sefydliadau lleol brynu cyfleusterau mewn perygl, fel meysydd chwaraeon, tafarnau a siopau cornel. Yn y Gyllideb, rhyddhaodd y Canghellor Rishi Sunak gyllid ar gyfer Bargen Twf Gogledd Cymru, gan greu'r disgwyliad o swyddi a chyfleoedd newydd yn y rhanbarth. Y gobaith yw y bydd y prosiectau sy'n derbyn cymorth yn cynnwys ailddatblygu hen Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych, ehangu'r diwydiannau peirianneg uwch-dechnoleg ym Mharc Busnes Llanelwy ac ailddatblygu canol tref Y Rhyl. Rwy'n awyddus i helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar y cytundebau masnachu newydd sy'n ymgodi yn sgil Brexit, ac yn ddiweddar trefnais y cyntaf o nifer o ddigwyddiadau Rhaglenni Allforio.

*Mae Llywodraeth y DU yn cynnig degau o filiynau o bunnoedd i Sir Ddinbych yn unig.*



# AR GYFER DYFFRYN CLWYD

## Mae gofal iechyd yn flaenoriaeth y tu hwnt i Covid-19

fy nghynllun

**Yn ystod yr etholiad, addewais y byddwn yn gweithio i wella safon gwasanaethau'r GIG yng Ngogledd Cymru.**

Ar yr adeg honno, doedd yr un ohonom yn gwybod y byddai'r heriau presennol yn gwaethygu oherwydd yr argyfwng iechyd mwyaf o fewn cof. Er gwaethaf y pwysau anferth ar y staff iechyd a gofal, maen nhw wedi gweithio'n ddiflino i'n diogelu bob un. Rydw i wedi bod yn falch o ymuno â chydweithwyr i sicrhau bod pobl leol yn cael eu brechu, a diolch i'n rhaglen sydd ymhlith y gorau yn y byd, gallwn edrych y tu hwnt i'r pandemig bellach a chanolbwyntio unwaith eto ar yr heriau sy'n wynebu'r bwrdd iechyd lleol.



Rydw i wedi bod yn falch o gael ymuno â chydweithwyr i frechu pobl leol yn y frwydr yn erbyn Covid-19.

Fel meddyg teulu ac aelod o Bwyllgor Dethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin, mae gen i brofiad uniongyrchol o sut mae'r system gofal iechyd yng Ngogledd Cymru yn siomi gormod o bobl. Mae fy mewnflwch yn llawn pryderon gan bobl sydd wedi dioddef o ganlyniad. Rwy'n gweithio gydag unigolion allweddol i gyflwyno data cymaradwy ar berfformiad a deilliannau'r GIG ledled y DU, ynghyd â mecanweithiau newydd i sicrhau bod pob dinesydd ym Mhrydain yn derbyn safon gofal sylfaenol. Rydw i hefyd yn galw am fynediad a dewis cyfartal o ran gwasanaethau ysbyty ar draws y wlad, ni waeth ym mha ran o'r DU rydyn ni'n byw. Rydw i eisiau defnyddio fy swydd i godi'r gwastad yn y GIG, i sicrhau bod pawb sydd ei angen yn gallu cyrchu'r gofal gorau cyn gynted â phosibl.

*Rydw i eisiau defnyddio fy swydd i sicrhau y gall yr holl etholwyr gyrchu'r gofal iechyd meddwl a chorfforol gorau cyn gynted â phosibl.*

## Seilwaith Digidol a Thrafnidiaeth i helpu Gogledd Cymru i ailgodi'n gryfach

**Wrth i gymaint o bethau fynd ar-lein dros y 18 mis diwethaf, mae llawer wedi cael eu rhwystro gan gysylltiadau band eang gwael.** Rydw i wedi cyd-ymweithio â Llywodraeth y DU, y cyngor lleol ac Openreach i flaenoriaethu Gogledd Cymru yn eu cynlluniau ar gyfer gwella cysylltedd band eang a signal ffonau symudol.

Ers yr Etholiad Cyffredinol, mae nifer o ASau Ceidwadol yn cynrychioli Gogledd Cymru bellach, ac rydyn ni'n gweithio fel tîm grymus i ymladd dros fuddiannau'r rhanbarth. Rydyn ni'n credu bod gwella ein seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd yn hanfodol ar gyfer dyfodol yr ardal. Fel cadeirydd ein grŵp hollbleidiol rhanbarthol yn Senedd y DU, rwy'n galw'n daer am gynigion mwy uchelgeisiol, a gyflwynir yn gyflymach. Rwy'n falch iawn bod yr A55 a chysylltiadau rheilffordd rhanbarthol wedi cael eu cynnwys yn 'Adolygiad Cysylltedd y DU' gan Lywodraeth y DU, sy'n cyflwyno'r blaenoriaethau y mae angen gweithredu arnynt.



fy nghynllun

## Mwy o blismyn i fynd i'r afael â throsedd



**Ers yr Etholiad Cyffredinol, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi recriwtio 147 o blismyn newydd fel rhan o ymgyrch cenedlaethol i godi'r niferoedd o 20,000.**

Derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ddinbych £517,000 gan y Swyddfa Gartref i lansio'r rhaglen 'Strydoedd Diogelach' yng ngorllewin Y Rhyl. Ers hynny mae cannoedd o 'becynnau atal trosedd' wedi cael eu dosbarthu i breswylwyr, a chamerâu CCTV wedi'u gosod. Crëwyd gardd gymunedol newydd, sefydlwyd Grŵp Eiriolwyr Cymunedol, ac mae cloeon digidol newydd wedi'u gosod ar y gatiau aleau presennol. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i greu amgylchedd mwy diogel a mynd i'r afael â throseddau fel dwyn o siopau, byrgleriaeth, troseddau ceir, a lladrad. Maen nhw hefyd yn helpu i fynd i'r afael â Llinellau Cyffuriau. Yn ddiweddar, cafodd pum rhif ffôn y llinellau cyffuriau hysbys yn Y Rhyl eu dileu, ac arestiwyd yr 16 o unigolion oedd ynghlwm.

**Rydw i'n cynnal cymorthfeydd cynghori rheolaidd sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth i bobl leol. I drefnu apwyntiad, ffoniwch neu anfonwch e-bost ataf.**



Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig



# NEWYDDLEN

## DYFFRYN CLWYD

**GAN DR JAMES DAVIES AS**

# Y Newyddion Diweddaraf

**fy nghynllun**

**ADRODDIAD CYNNYDD**



Ymwelodd Matt Warman AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Seilwaith Digidol, â Commscope ym Modelwyddan i weld y cynnydd mewn cynhyrchu ceblau band eang ffibr ar gyfer darparwyr rhwydwaith fel Openreach.

**Wrth i'r ardal ymadfer ar ôl y pandemig, mae llawer o gyfleoedd o'n blaen.**
**Yn Ninbych, rwy'n gweithio'n agos gyda'r gymuned ar nifer o faterion, yn cynnwys hen Ysbyty Gogledd Cymru, parcio yng nghanol y dref, adeiladau hanesyddol mewn perygl, a'r posibilrwydd o atgyfodi'r cynlluniau ar gyfer llwybr beiciau o Lanelwy a'r arfordir, drwy Ddinbych, i Ruthun.**

Mae'r gwaith yn Llanelwy wedi canolbwyntio ar yr angen am fwy o amddiffynfeydd rhag llifogydd a gwaith ataliol yn sgil y stormydd yn gynnar y llynedd. Rydw i hefyd wedi gweithio gyda phreswylwyr i ostegu'r sŵn o Drosffordd yr A55 – er bod angen mwy o waith ar y lleiniau cyfagos.
Yn yr un modd, rwy'n gweithio ar opsiynau posibl i ostegu'r sŵn ar ffordd osgoi Rhuddlan sy'n tarfu ar breswylwyr.
Ar ôl hir aros, bydd Castell Rhuddlan, Cadeirlan Llanelwy a Chastell Dinbych yn cael arwyddion brown ar yr A55 yn fuan. Bydd y rhain yn cyfeirio ymwelwyr at ein hannwyl dirnodau hanesyddol sy'n cael eu hesgeuluso'n rhy aml.
Rwy'n ymwybodol iawn o'r pryder parhaus oherwydd colli Pont Llanerch, rhwng Trefnant a Thremeirchion, ac rwy'n galw ar y cyngor sir i weithredu.
Rydw i hefyd wedi cydweithio gyda rhanddeiliaid yn Llandyrnog ynghylch dyfodol safle'r hufenfa, wedi cefnogi preswylwyr oedd yn gwrthwynebu safleoedd teithwyr dadleuol, ac wedi codi ffaeleddau band eang gwledig yn ystod Sesiwn Gwestiynau'r Prif Weinidog yn ddiweddar.


**Cysylltu â Dr James Davies AS**

james.davies.mp@parliament.uk
198 High Street, Prestatyn, Denbighshire, LL19 9BP
01745 888920
jamesdavies.org.uk/youtube
www.jamesdavies.org.uk
jamesdaviesofficial
@jamesdavies
jamesdaviesvoc


**Rydw i'n cynnal cymorthfeydd cynghori rheolaidd sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth i bobl leol. I drefnu apwyntiad, ffoniwch neu anfonwch e-bost ataf.**


Hyrwyddwyd gan Judith Hickey, ar ran Dr James Davies AS, y ddau yn VoCCA, Tŷ Hanover, The Roe, Llanelwy LL17 0LT. Argraffwyd gan Paragon CC, 19 Brunswick Street, Lerpwl, L2 0PJ.


**Cyflawni Fy Nghynllun ar gyfer Dyffryn Clwyd**

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig